# SAFON CARTREF BYW

Datblygwyd gan y cyhoedd yng Nghymru i ddiffinio beth sydd ei angen ar bawb mewn cartref er mwyn byw yn hytrach nag ymdopi yn unig.

GORFFENNAF 2017

Cefnogwyd gan



# John Puzey

## Cyfarwyddwr,
## Shelter Cymru

**Yn Shelter Cymru, credwn y dylai pawb yng Nghymru gael cartref gweddus, diogel, cynnes a fforddiadwy. Ein cenhadaeth yw gwella bywydau pobl. Gyda'n gwaith polisi, ymchwil, ymgyrchu a lobïo, a'n gwasanaethau uniongyrchol i bobl mewn angen tai rydym yn parhau i oresgyn yr heriau sy'n rhwystro pobl yng Nghymru rhag cael cartref gweddus.**

Rydym yn falch iawn o'r gwaith yr ydym wedi ei wneud mewn partneriaeth â British Gas ac rydym yn hynod hapus ein bod, gyda'n gilydd, wedi cynhyrchu'r Safon Cartref Byw. Mae'r Safon hon yn crynhoi'r gwerthoedd a'r materion sydd wir yn bwysig i aelwydydd yng Nghymru. Mae'n ein helpu ni i ddeall yn well yr hyn sydd ei angen i wneud tŷ yn gartref.

Mae Cymru wedi gweld newidiadau cyffrous sy'n torri tir newydd mewn polisi tai yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gyda chofrestru a thrwyddedu landlordiaid, deddfwriaeth digartrefedd newydd cyffrous a thargedau adeiladu tai uchelgeisiol a fforddiadwy, mae llawer o bethau cyffrous ar y gorwel.

Yn anffodus, yn Shelter Cymru, cawn ein hatgoffa'n barhaus er gwaetha'r datblygiadau hyn, fod dal rhai rhwystrau i'w goresgyn cyn i ni gyrraedd ein nod o sicrhau bod gan bawb yng Nghymru gartref gweddus, cynnes a diogel. Mae'r adroddiad hwn wedi tynnu sylw at ba mor bell sydd gennym i fynd o hyd yng Nghymru.

Mae'n ofid bod dros hanner yr aelwydydd sydd â phlant yn byw mewn cartrefi nad ydynt yn cyrraedd y Safon. Mae angen gwella hyn. Rhaid i ni wneud yn well dros ein plant a gwarchod cenedlaethau ein dyfodol.

Tra ar draws Prydain, y maes oedd yn peri'r mwyaf o bryder oedd fforddiadwyedd, yng Nghymru'r prif achos o bryder oedd amodau gwael. Roedd pobl yng Nghymru ddwywaith mor debygol o ddweud eu bod yn byw gyda lleithder a llwydni na phobl ar draws Prydain. Mae gormod o bobl yng Nghymru yn byw mewn cartrefi o ansawdd gwael ac mae angen i hyn fod yn ganolbwynt ar gyfer gweithredu gan y llywodraeth. Rydym yn cydnabod y gwaith anhygoel a wneir gan Lywodraeth Cymru i wella tai yng Nghymru ond mae ffordd bell i fynd.

Beth am i ni ddefnyddio'r Safon hon i ddenu'r sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector at ei gilydd a chydweithio i wella cartrefi, cymunedau, iechyd a lles pobl. Beth am ddefnyddio'r wybodaeth hon i ganolbwyntio ar ein problemau presennol a chynllunio gyda'n gilydd sut i'w datrys a pharhau â'r gwaith da sydd wedi ei ddechrau yng Nghymru. Gall y Safon Cartref Byw ddarparu meincnod ar gyfer safonau yng Nghymru a chaniatáu i ni fonitro ein datblygiad wrth greu cartrefi gwell i bawb.



# Steve Crabb

## Cyfarwyddwr Defnyddwyr sy’n agored i niwed, British Gas

**Rydym ni yn British Gas yn rhannu cred a gweledigaeth Shelter Cymru y dylai cartrefi gweddus, cynnes a derbyniol fod ar gael i bawb.**

Rydym wedi gweithio gyda’n gilydd ar wella’r sector rhentu preifat ac rydym yn falch iawn o’r hyn a gyflawnwyd. Drwy gyfuno ein gwybodaeth a’n harbenigedd, rydym wedi esgor ar ganlyniadau gwych.

- Rydym wedi cael llwyddiant gyda’n hymgyrch i wella safonau trydanol a charbon monocsid yng Nghymru.
- Rydym wedi gweithio gyda Shelter Cymru i amddiffyn y rhai sy’n rhentu rhag cael eu dadgartrefu am resymau dialgar – pan fydd tenantiaid yn cael eu dadgartrefu gan landlordiaid am eu bod wedi codi problemau gyda’u heiddo.
- Mae cyllid gan Ymddiriedolaeth Ynni British Gas hefyd wedi ein galluogi i ddarparu hyfforddiant ar dlodi tanwydd a dyledion ynni i ymgynghorwyr Shelter Cymru yn ogystal â chyllido rolau arbenigol oddi mewn i Shelter Cymru a all ddarparu cyngor yn rhad ac am ddim, yn ddiduedd ac wedi ei deilwra ynglŷn â sut i gadw allan o ddyled.

Rydym yn gwybod bod cartref diogel a chynnes yn hanfodol i’n cwsmeriaid, felly rydym yn ei osod wrth wraidd popeth yr ydym yn ei wneud. Mae ein peirianwyr yn gweithio’n galed i arwain cartrefi Cymru i’r 21ain ganrif gyda mesuryddion clyfar a gwres wedi ei reoli o bell. O fewnosod insiwleiddio, trwsio boeleri neu wneud gwiriadau diogelwch nwy a thrydan, mae ein peirianwyr yn gwneud naw miliwn o ymweliadau i gartrefi bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod gan gwsmeriaid gartrefi diogel a chynnes.

Mae ein busnes Connected Home yn dangos bod cartrefi a’r ffordd mae pobl yn byw yn cael eu trawsnewid gan dechnoleg, ond rydym hefyd yn gwybod nad yw pawb yn ystyried yr adeilad y maent yn byw ynddo yn ‘gartref.’ Mae angen i ni weithio’n galetach i wella safon tai fel eu bod yn dod yn gartrefi i bawb.

Roeddem yn teimlo y byddai datblygu’r Safonau Cartref Byw yn gyfle ardderchog i wneud hyn. Rydym wedi dysgu gan ein cwsmeriaid ynglŷn â’r hyn y maent yn ei ystyried yn gartref a gyda Shelter Cymru rydym wedi cynhyrchu rhywbeth sydd â’r potensial i helpu pobl i gael lleoedd diogel, cynnes a derbyniol i’w galw’n gartref.

# Rhagarweiniad

“Wedi ei ddatblygu gan y cyhoedd ar gyfer y cyhoedd”

## Beth yw’r Safon Cartref Byw?

**Er bod nifer o ffyrdd o ddiffinio gwahanol agweddau ynglyn â beth y dylai cartref fod a sut y gellir mesur hyn, tan nawr, ni fu diffiniad o’r hyn y mae’r cyhoedd yn disgwyl y dylai cartref derbyniol ei ddarparu.**

Mae’r Safon Cartref Byw yn llenwi’r bwlch hwn drwy wireddu’r hyn y mae’r cyhoedd yn ei gredu y dylen ni gyd ddisgwyl i’n cartref ei ddarparu, er mwyn sicrhau ein lles a darparu sylfeini er mwyn i ni adeiladu a byw ein bywydau.

Mae’r Safon yn ganlyniad naw mis o ymchwil a wnaed gan Ipsos MORI ar ran Shelter a British Gas, gan gynnwys cyfres o grwpiau trafod, gweithdai ac arolygon mesurol yng Nghymru a ledled Prydain. Unodd y llinynnau gwahanol hyn farn y cyhoedd ynglŷn â’r hyn y dylai cartref ei ddarparu, a ffurfiwyd rhestr o 39 o nodweddion sydd, gyda’i gilydd, yn diffinio’r Safon Cartref Byw - a dylem anelu at godi pob cartref i’r safon hon, beth bynnag yw eu deiliadaeth, maint neu oed.

**Sut mae’n gweithio?**

**Mae’r 39 o ddatganiadau sy’n ffurfio’r Safon Cartref Byw wedi eu rhannu ar draws pum dimensiwn gwahanol:**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | | **Fforddiadwyedd** |
| 2 | | **Amodau derbyniol** |
| 3 | | **Gofod** |
| 4 | | **Sefydlogrwydd** |
| 5 | | **Cymdogaeth** |

Oddi mewn i bob dimensiwn, cafodd rhai nodweddion eu hystyried fel rhai hanfodol - amodau y mae’n rhaid i bob cartref eu diwallu er mwyn cyrraedd y Safon Cartref Byw. Ystyriwyd nodweddion eraill fel rhai cyfnewidiadwy, nodweddion yr oedd llawer o bobl yn credu eu bod yn bwysig, ond nad oedden nhw’n berthnasol i bawb ac nad oedden nhw’r un mor ddymunol i bawb.

Er mwyn mesur a yw tŷ’n diwallu’r Safon, caiff ei asesu yn ôl pob un o’r 39 o nodweddion ar draws y pum dimensiwn. Rhaid i gartref ddiwallu pob un o’r nodweddion hanfodol ac isafswm o’r nodweddion cyfnewidiadwy ym mhob dimensiwn.

Caiff y 39 o nodweddion eu hegluro’n llawn yn Atodiad 1.

**Sut mae Cymru’n diwallu’r gofynion?**

Ar ôl datblygu’r Safon Cartref Byw, aethon ni nôl at y cyhoedd ag arolwg cenedlaethol er mwyn deall faint o bobl yng Nghymru sy’n byw mewn cartrefi y maen nhw’n teimlo eu bod yn dderbyniol.

Caiff y dull ar gyfer yr arolwg ei ddisgrifio’n llawn yn Atodiad 2.

# Prif Ganfyddiadau

**44%**

**o bobl yng Nghymru yn byw mewn cartrefi nad ydynt yn diwallu'r Safon Cartref Byw, o gymharu â 43% ym Mhrydain i gyd.**

**RHESYMAU DROS FETHU:**

| | Prydain | Cymru |
|---|---|---|
| Fforddiadwyedd | 27% | 26% |
| Amodau derbyniol | 18% | 27% |
| Gofod | 11% | 9% |
| Sefydlogrwydd | 10% | 10% |
| Cymdogaeth | 5% | 5% |

**NIFER O DDIMENSIYNAU A FETHWYD:**

| | |
|---|---|
| Dimensiynau Methiant 1 | 25% |
| Dimensiynau Methiant 2 | 10% |
| Dimensiynau Methiant 3 | 4% |
| Dimensiynau Methiant 4 | 3% |
| Dimensiynau Methiant 5 | 1% |

## % o bwy sy'n pasio neu'n methu pob dimensiwn:

### 1 Fforddiadwyedd


Cafodd 'fforddiadwyedd' ei amlygu gan y cyhoedd ymhlith un o'r agweddau mwyaf pwysig wrth ystyried cartref derbyniol.

74% (pasio)
26% (methu)

### 2 Amodau derbyniol

Methodd mwy o bobl â diwallu'r Safon yn y categori 'amodau' nag unrhyw agwedd arall wrth ystyried cartref derbyniol. Ym Mhrydain i gyd methodd 18% o ran 'amodau'.

73% (pasio)
27% (methu)




### 5 Cymdogaeth

Roedd byw mewn ardal lle roeddent yn teimlo'n ddiogel yn arbennig o bwysig i'r cyhoedd. Roedden nhw hefyd eisiau bod yn ddigon agos i'w gwaith, eu teulu a'u ffrindiau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

95% (pasio)
5% (methu)

### 4 Sefydlogrwydd

Roedd trafodaethau ynglyn â sefydlogrwydd yn aml yn cyfeirio at y graddau y mae pobl yn teimlo y maent yn gallu troi'r lle maent yn byw ynddo yn 'gartref'.

90% (pasio)
10% (methu)

### 3 Gofod

Ystyriwyd gofod addas yn hanfodol ar gyfer lles, yn enwedig lles meddyliol a chymdeithasol.

91% (pasio)
9% (methu)

**Esboniad:** % yn pasio'r dimensiwn | % yn methu'r dimensiwn

Fforddiadwyedd | Amodau derbyniol | Gofod | Sefydlogrwydd | Cymdogaeth

# Pwy sy'n cael ei effeithio fwyaf?

**% Y BOBL SY'N METHU'R SAFON CARTREF BYW:**

### MAE TAI Y MAE PLANT YN BYW YNDDYN NHW YN FWY TEBYGOL O FETHU

| | |
|---|---|
| Gofod | 14% |
| Amodau derbyniol | 29% |
| Fforddiadwyedd | 36% |
| Sefydlogrwydd | 13% |
| Cymdogaeth | 7% |

**51%**

**Mae dros hanner y tai sydd â phlant yn byw ynddyn nhw yng Nghymru yn methu'r Safon yn gyffredinol (51%).**

### MAE TAI IAU YN FWY TEBYGOL O FETHU

| | |
|---|---|
| 16-24 | 43% |
| 25-34 | 59% |
| 35-44 | 54% |
| 45-54 | 54% |
| 55-59 | 56% |
| 60-64 | 25% |
| 65+ | 28% |

### MAE TENANTIAID YN FWY TEBYGOL O FETHU NA PHERCHNOGION CARTREFI

| | |
|---|---|
| Perchnogion cartrefi | 36% |
| Rhai sy'n rhentu'n breifat | 61% |
| Rhai sy'n rhentu'n gymdeithasol | 64% |

### MAE TENANTIAID YN FWY TEBYGOL O FETHU NA PHERCHNOGION CARTREFI

**GOFOD**

| | |
|---|---|
| Perchnogion cartrefi | 9% |
| Rhai sy'n rhentu'n gymdeithasol | 8% |
| Rhai sy'n rhentu'n breifat | 9% |

**AMODAU DERBYNIOL**

| | |
|---|---|
| Perchnogion cartrefi | 25% |
| Rhai sy'n rhentu'n gymdeithasol | 29% |
| Rhai sy'n rhentu'n breifat | 34% |

**FFORDDIADWYEDD**

| | |
|---|---|
| Perchnogion cartrefi | 20% |
| Rhai sy'n rhentu'n gymdeithasol | 42% |
| Rhai sy'n rhentu'n breifat | 37% |

**SEFYDLOGRWYDD**

| | |
|---|---|
| Perchnogion cartrefi | 5% |
| Rhai sy'n rhentu'n gymdeithasol | 11% |
| Rhai sy'n rhentu'n breifat | 32% |

**CYMDOGAETH**

| | |
|---|---|
| Perchnogion cartrefi | 3% |
| Rhai sy'n rhentu'n gymdeithasol | 12% |
| Rhai sy'n rhentu'n breifat | 7% |

### PRIF GANFYDDIADAU ERAILL

**42%**

Mae dau o bob pump o'r rhai sy'n rhentu'n gymdeithasol yn methu o ran fforddiadwyedd

**32%**

Mae un o bob tri o'r rhai sy'n rhentu'n breifat yn methu ar sefydlogrwydd

**34%**

Mae un mewn tri o'r rhai sy'n rhentu'n breifat yn methu ar amodau

# 1 Fforddiadwyedd

**74%** YN PASIO'R MEINI PRAWF O RAN FFORDDIADWYEDD

**26%** YN METHU'R MEINI PRAWF O RAN FFORDDIADWYEDD

**Poeni y byddai taliadau rhent neu forgais yn codi ac yn mynd yn anodd eu talu yw'r prif reswm y mae tai yn methu yn achos y dimensiwn hwn.**

**% Y BOBL Y MAE EU TAI YN METHU YN Y DIMENSIWN FFORDDIADWY AR SAIL:**

## DALIADAETH

| | |
|---|---|
| Perchen gyda morgais | 36% |
| Perchen heb forgais | 6% |
| Wedi ei rentu gan yr ALl | 36% |
| Wedi ei rentu'n breifat | 37% |
| Wedi ei rentu gan gymdeithas tai | 51% |

## OED YR EIDDO

| | |
|---|---|
| Cyn 1900 | 28% |
| 1900–1944 | 29% |
| 1945–1980 | 23% |
| 1981–2000 | 31% |
| 2001 neu'n ddiweddarach | 26% |

## PLANT YN Y TŶ

| | |
|---|---|
| Oes | 36% |
| Nac oes | 23% |

## OED DEILIAD Y TŶ

| | |
|---|---|
| 16-24 | 23% |
| 25-34 | 40% |
| 35-44 | 47% |
| 45-54 | 30% |
| 55-59 | 19% |
| 60-64 | 16% |
| 65+ | 8% |

# 2 Amodau da

**73%** YN PASIO'R MEINI PRAWF AR GYFER AMODAU DA

**27%** YN METHU'R MEINI PRAWF AR GYFER AMODAU DA

**Mae pobl yng Nghymru yn fwy tebygol o fethu'r Safon oherwydd diffyg amodau da. Mae hyn yn wahanol i Brydain yn gyffredinol – yn yr achos hwnnw, fforddiadwyedd yw'r prif reswm y mae pobl yn methu.**

**Mae un mewn pump o bobl nad ydynt yn rhydd rhag porblemau llwydni neu leithder (20%). Mae hyn ddwywaith mor uchel na Phrydain i gyd.**

**% Y BOBL Y MAE EU TAI YN METHU'R MEINI PRAWF AMODAU DERBYNIOL AR SAIL:**

### DALIADAETH

| | |
|---|---|
| Perchen gyda morgais | 27% |
| Perchen heb forgais | 24% |
| Wedi ei rentu gan yr ALl | 30% |
| Wedi ei rentu'n breifat | 34% |
| Wedi ei rentu gan gymdeithas tai | 28% |

### OED YR EIDDO

| | |
|---|---|
| Cyn 1900 | 44% |
| 1900–1944 | 20% |
| 1945–1980 | 29% |
| 1981–2000 | 18% |
| 2001 neu'n ddiweddarach | 9% |

### PLANT YN Y TŶ

| | |
|---|---|
| Oes | 29% |
| Nac oes | 26% |

### OED DEILIAD Y TŶ

| | |
|---|---|
| 16-24 | 25% |
| 25-34 | 30% |
| 35-44 | 35% |
| 45-54 | 38% |
| 55-59 | 31% |
| 60-64 | 6% |
| 65+ | 22% |

# 3 Gofod

**91%** YN PASIO'R MEINI PRAWF AR GYFER GOFOD

**9%** YN METHU'R MEINI PRAWF AR GYFER GOFODA

**Yng Nghymru mae perchnogion tai gyda morgais yn fwy tebygol o fethu'r dimensiwn gofod o gymharu â Phrydain yn gyffredinol lle mae rhai sy'n rhentu fwyaf tebygol o fethu.**

**% Y BOBL Y MAE EU CARTREFI YN METHU'R MEINI PRAWF GOFOD AR SAIL:**

## DALIADAETH

| | |
|---|---|
| Perchen gyda morgais | 13% |
| Perchen heb forgais | 6% |
| Wedi ei rentu gan yr ALl | 9% |
| Wedi ei rentu'n breifat | 9% |
| Wedi ei rentu gan gymdeithas tai | 8% |

## OED YR EIDDO

| | |
|---|---|
| Cyn 1900 | 21% |
| 1900–1944 | 9% |
| 1945–1980 | 6% |
| 1981–2000 | 8% |
| 2001 neu'n ddiweddarach | 6% |

## PLANT YN Y TŶ

| | |
|---|---|
| Oes | 14% |
| Nac oes | 8% |

## OED DEILIAD Y TŶ

| | |
|---|---|
| 16-24 | 8% |
| 25-34 | 11% |
| 35-44 | 16% |
| 45-54 | 9% |
| 55-59 | 12% |
| 60-64 | 7% |
| 65+ | 4% |

# 4 Sefydlogrwydd

**90%** YN PASIO'R MEINI PRAWF AR GYFER SEFYDLOGRWYDD

**10%** YN METHU'R MEINI PRAWF AR GYFER SEFYDLOGRWYDD

**Mae 1 ym mhob 3 o'r rhai sy'n rentu'n breifat yn methu dimensiwn sefydlogrwydd y Safon, gyda'r mwyafrif yn methu am eu bod yn teimlo nad oes ganddyn nhw ddigon o reolaeth dros ba mor hir y gallan nhw aros yn eu cartref.**

**% Y BOBL Y MAE EU CARTREFI YN METHU O RAN Y MEINI PRAWF SEFYDLOGRWYDD AR SAIL:**

### DALIADAETH

| | |
|---|---|
| Perchen gyda morgais | 7% |
| Perchen heb forgais | 3% |
| Wedi ei rentu gan yr ALl | 12% |
| Wedi ei rentu'n breifat | 32% |
| Wedi ei rentu gan gymdeithas tai | 11% |

### OED YR EIDDO

| | |
|---|---|
| Cyn 1900 | 12% |
| 1900–1944 | 12% |
| 1945–1980 | 9% |
| 1981–2000 | 4% |
| 2001 neu'n ddiweddarach | 12% |

### PLANT YN Y TŶ

| | |
|---|---|
| Oes | 13% |
| Nac oes | 9% |

### OED DEILIAD Y TŶ

| | |
|---|---|
| 16-24 | 16% |
| 25-34 | 12% |
| 35-44 | 15% |
| 45-54 | 7% |
| 55-59 | 26% |
| 60-64 | 5% |
| 65+ | 3% |

# 5 Cymdogaeth

95% YN PASIO'R MEINI PRAWF AR GYFER CYMDOGAETH

5% YN METHU'R MEINI PRAWF AR GYFER CYMDOGAETH

**Yng Nghymru, roedd 1 o bob 10 o bobl (11%) yn teimlo nad oedd eu cartrefi yn ddigon agos at deulu, ffrindiau neu rwydweithiau cefnogaeth eraill.**

**% Y BOBL Y MAE EU CARTREFI YN METHU'R MEINI PRAWF CYMDOGAETH AR SAIL:**

### DALIADAETH

| | |
|---|---|
| Perchen gyda morgais | 1% |
| Perchen heb forgais | 4% |
| Wedi ei rentu gan yr ALl | 11% |
| Wedi ei rentu'n breifat | 7% |
| Wedi ei rentu gan gymdeithas tai | 15% |

### OED YR EIDDO

| | |
|---|---|
| Cyn 1900 | 3% |
| 1900–1944 | 1% |
| 1945–1980 | 8% |
| 1981–2000 | 8% |
| 2001 neu'n ddiweddarach | 0% |

### PLANT YN Y TŶ

| | |
|---|---|
| Oes | 7% |
| Nac oes | 5% |

### OED DEILIAD Y TŶ

| | |
|---|---|
| 16-24 | 4% |
| 25-34 | 9% |
| 35-44 | 12% |
| 45-54 | 3% |
| 55-59 | 10% |
| 60-64 | 0% |
| 65+ | 2% |

# Atodiad 1:
## Nodweddion Safon Cartref Byw

| Dimensiwn | Nodweddion hanfodol | Nodweddion cyfnewidiadwy |
|---|---|---|
| 1<br><br>**Fforddiadwyedd** | ■ Yn gallu gwneud taliadau rhent neu forgais ar y cartref heb orfod torri gwariant ar hanfodion y cartref fel bwyd neu wres yn gyson<br>■ Ddim yn poeni y gallai taliadau rhent neu forgais godi i lefelau fyddai'n anodd eu talu | ■ Yn gallu gwneud taliadau rhent neu forgais ar y cartref heb fod hyn yn atal cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol yn gyson<br>■ Yn gallu gwneud taliadau rhent neu forgais ar y cartref heb gael eu hatal yn gyson rhag rhoi digon o arian i'r neilltu ar gyfer costau annisgwyl |
| 2<br><br>**Amodau derbyniol** | ■ Gellir gwresogi'r cartref yn ddiogel ac effeithiol<br>■ Mae gan y cartref ddŵr poeth ac oer<br>■ Mae'r cartref yn rhydd rhag peryglon diogelwch fel weirio diffygiol neu risgiau tan<br>■ Mae'r cartref yn ddiogel yn strwythurol heb ddiffygion yn y to a/neu'r waliau<br>■ Mae gan y cartref dŷ bach a bath a/neu gawod<br>■ Mae'r cartref yn teimlo'n gorfforol ddiogel (er enghraifft mae cloeon addas ar y drysau a'r ffenestri)<br>■ Mae'r cartref yn rhydd rhag problemau pla<br>■ Mae'r cartref yn rhydd o broblemau llwydni neu leithder<br>■ Mae'r cartref yn addas i anghenion oed a/neu anabledd pawb yn y cartref<br>■ Mae socedi trydan yn y prif fannau byw, y gegin a'r ystafelloedd gwely | ■ Mae'r cartref yn rhydd o sŵn o'r tu allan sy'n amharu'n gyson ar gwsg neu weithgareddau o ddydd i ddydd<br>■ Mae gan y cartref ddigon o olau naturiol yn y prif fannau byw, y gegin a'r ystafell(oedd) gwely<br>■ Mae modd sychu dillad gwlyb yn y cartref heb achosi problemau llwydni neu leithder<br>■ Mae'n bosibl cael mynediad i'r rhyngrwyd o'r cartref neu gael cyswllt â'r rhyngrwyd os oes angen |

| Dimensiwn | Nodweddion hanfodol | Nodweddion cyfnewidiadwy |
|---|---|---|
| 3<br><br>**Gofod** | ■ Mae nifer yr ystafelloedd gwely yn y cartref yn addas ar gyfer pob aelod o'r cartref<br><br>■ Mae digon o le i ganiatáu i bob aelod o'r tŷ gael preifatrwydd er enghraifft pan fyddant am gael bod ar eu pennau eu hunain<br><br>■ Mae digon o le i bob aelod o'r tŷ i dreulio amser gyda'i gilydd yn gyfforddus yn yr un ystafell<br><br>■ Mae digon o le i baratoi a choginio bwyd<br><br>■ Mae digon o le i storio eitemau hanfodol, fel nifer rhesymol o eitemau o ddillad, tywelion a dillad gwely | ■ Mae digon o gyfleusterau ystafell ymolchi i bawb sy'n byw yn y tŷ i allu eu defnyddio ar unrhyw adeg sy'n addas i'w hanghenion nhw<br><br>■ Mae gan y cartref fynediad i ofod y tu allan, er enghraifft gardd breifat neu un sy'n cael ei rhannu neu falcon<br><br>■ Mae digon o ofod i gael ymwelwyr yn ystod y dydd neu gyda'r nos<br><br>■ Mae digon o ofod i aelodau o'r cartref astudio neu wneud gwaith neu waith cartref os oes angen<br><br>■ Mae digon o ofod i westai aros dros nos, er enghraifft, ar soffa neu wely soffa<br><br>■ Mae digon o ofod i storio eitemau domestig fel nwyddau glanhau a byrddau smwddio i'w cadw nhw allan o'r ffordd<br><br>■ Mae digon o ofod i storio peth eiddo personol, fel llyfrau neu deganau plant |
| 4<br><br>**Sefydlogrwydd** | ■ Mae gan ddeiliaid y tŷ ddigon o reolaeth dros ba mor hir y gallan nhw fyw yn y cartref | ■ Pe byddent yn cael rhybudd i adael y cartref, byddai deiliaid y tŷ'n teimlo eu bod yn cael digon o rybudd i sicrhau rhywle arall addas i fyw<br><br>■ Gallu aros yn y cartref yn ddigon hir i deimlo'n rhan o'r gymuned leol os ydynt yn dymuno hynny<br><br>■ Gallu gwneud newidiadau oddi mewn i'r cartref fel addurno, os oes angen<br><br>■ Gallu cadw anifail anwes yn y cartref neu'r ardd os ydynt yn dymuno |
| 5<br><br>**Cymdogaeth** | ■ Yn teimlo'n gymharol ddiogel yn y gymdogaeth leol | ■ Mae cyfleusterau fel siopau bwyd, ysgolion a/neu feddygfa, o fewn pellter rhesymol i'r cartref<br><br>■ Mae'r cartref yn ddigon agos i deulu a ffrindiau neu rwydweithiau cefnogi eraill<br><br>■ Gall unrhyw un yn y tŷ sy'n gweithio y tu allan i'r cartref gyrraedd eu gweithle fel arfer o fewn awr neu lai |

# Atodiad 2:
## Methodoleg arolwg Safon Cartref Byw

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno data wedi ei gyfuno o ddau arolwg.

Cafodd yr arolwg cyntaf ei seilio ar 1,961 o gyfweliadau a wnaed wyneb yn wyneb mewn cartrefi ledled Prydain Fawr gydag oedolion 16+ oed rhwng 19 Awst a 5 Medi 2016. Mae data wedi ei bwysoli i broffil y boblogaeth. Gwnaed cyfanswm o 98 cyfweliad gydag oedolion 16+ yng Nghymru.

Cyfunwyd data Cymru o'r arolwg cyntaf ag arolwg ychwanegol a wnaed wyneb yn wyneb mewn cartrefi ledled Cymru gydag oedolion 16+ oed sy'n byw yng Nghymru. Dechreuodd gwaith maes ar gyfer arolwg ychwanegol Cymru ar 10 Ionawr 2017 yn cynnwys dwy don gan orffen ar 6 Chwefror 2017. Cyflawnwyd cyfanswm o 233 o gyfweliadau gydag oedolion 16+ oed yng Nghymru.

Mae data ar y cyd wedi ei bwysoli i broffil Cymreig penodol yn nhermau rhyw, oed, statws gwaith, deiliadaeth a maint y cartref.

Mae cyfuno data o'r ddau arolwg ynghyd â defnyddio strategaeth wedi ei bwysoli'n benodol i Gymru yn golygu nad oes modd cymharu canlyniadau arolwg presennol yn uniongyrchol ag amcangyfrifon Cymreig a gafwyd yn yr arolwg gwreiddiol ar gyfer Prydain Fawr yn gyffredinol.

Gwnaed pob ymchwil gan Ipsos MORI.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am ddatblygiad a dull cyfrifo'r Safon Cartref Byw ar http://www.shelter.org.uk/livinghomestandard.

